



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2021 Rhif 925 (Cy. 210)**

**2021 No. 925 (W. 210)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**PUBLIC HEALTH, WALES**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15)  
2021**

**The Health Protection (Coronavirus  
Restrictions) (No. 5) (Wales)  
(Amendment) (No. 15) Regulations  
2021**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y prif Reoliadau").

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination in Wales.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1609 (W. 335)) ("the principal Regulations").

Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r prif Reoliadau i ddarparu nad oes unrhyw lefel rhybudd yn gymwys i Gymru o 6.00 a.m. ar 7 Awst 2021. Mae hyn yn golygu nad yw'r un o'r cyfyngiadau a'r gofynion yn Atodlenni 1 i 4 i'r prif Reoliadau yn gymwys. Yr effaith yw:

- nad oes unrhyw derfynau penodol ar nifer y bobl a gaiff ymgynnull, gan gynnwys mewn cartrefi preifat ac mewn mannau cyhoeddus;
- nad oes unrhyw derfynau penodol ar nifer y bobl a gaiff fynd i ddigwyddiadau rheoleiddiedig ar unrhyw adeg;
- nad oes unrhyw ofynion i unrhyw fathau penodol o fusnesau neu wasanaethau gau.

Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion mewn rhannau eraill (ar wahân i Atodlenni 1 i 4) o'r prif Reoliadau yn parhau i fod yn gymwys, gan gynnwys gofynion ar bersonau sy'n gyfrifol am fangreodded rheoleiddiedig i gymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y mangreodded, a gofynion i wisgo gorchuddion wyneb ar drafndiaeth gyhoeddus ac mewn mannau cyhoeddus penodol o dan do.

Er gwaethaf llacio'r rheolau ar bobl yn ymgynnull ac yn mynd i ddigwyddiadau, mae'r mesurau rhesymol (o dan reoliad 16 o'r prif Reoliadau) sy'n dal i fod yn ofynnol mewn mangre reoleiddiedig yn golygu y gall fod angen i'r rheini sy'n gyfrifol am y fangre bennu terfynau ar nifer y bobl a gaiff ymgynnull, ac ar gapasiti digwyddiadau.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r gofyniad yn Rhan 3 o'r prif Reoliadau i berson ynysu ar ôl cael ei hysbysu gan swyddog olrhain cysylltiadau ei fod wedi cael cysylltiad agos â pherson sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws. Mae'r Rheoliadau yn mewnosod esemptiad newydd yn rheoliad 10(5) o'r prif Reoliadau i ddarparu nad yw'n ofynnol mwyach i oedolion ynysu ar ôl cael hysbysiad o'r fath os ydynt wedi cwblhau, yn y Deyrnas Unedig, gwrs o ddosau o frechlyn awdurdodedig o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn iddynt gael y cysylltiad agos, neu os ydynt yn cymryd rhan mewn treial clinigol yn y Deyrnas Unedig o frechlyn yn erbyn y coronafeirws. Mae'r diwygiadau hefyd yn hepgor rheoliad 9 o'r prif Reoliadau fel nad oes gofyniad mwyach i bersonau o dan 18 oed ynysu ar ôl cael hysbysiad o'r fath.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn mewnosod rheoliad newydd 10A yn y prif Reoliadau i ddarparu, pan fo'n ofynnol i blentyn, neu berson y mae'r esemptiad newydd yn rheoliad 10(5) yn gymwys iddo, ynysu yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar ôl cael ei hysbysu ei fod wedi cael cysylltiad agos â pherson sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws, y daw'r gofyniad i ynysu i ben ar ddechrau'r diwrnod ar 7 Awst 2021.

The Regulations amend the principal Regulations to provide that from 6.00 a.m. on 7 August 2021, no alert level applies to Wales. This means that none of the restrictions and requirements in Schedules 1 to 4 to the principal Regulations apply. The effect is that:

- there are no specific limits on the number of people who can gather together, including in private homes and in public places;
- there are no specific limits on the number of people that may attend regulated events at any time;
- there are no requirements for any particular types of businesses or services to close.

The restrictions and requirements in other parts (aside from Schedules 1 to 4) of the principal Regulations continue to apply, including requirements on persons responsible for regulated premises to take reasonable measures to minimise the risk of exposure to coronavirus at the premises, and requirements to wear face coverings on public transport and in particular indoor public places.

Despite the relaxation of the rules on people gathering and attending events, the reasonable measures (under regulation 16 of the principal Regulations) that continue to be required on regulated premises mean that those responsible for the premises may need to set limits on the numbers of people who can gather, and on the capacity of events.

These Regulations also amend the requirement in Part 3 of the principal Regulations for a person to isolate after being notified by a contact tracer that they have had close contact with a person who has tested positive for coronavirus. The Regulations insert a new exemption at regulation 10(5) of the principal Regulations to provide that adults are no longer required to isolate after such a notification if they have completed, in the United Kingdom, a course of doses of an authorised vaccine at least 14 days before they had the close contact, or are participating in a clinical trial in the United Kingdom of a vaccine against coronavirus. The amendments also omit regulation 9 of the principal Regulations so that there is no longer a requirement for persons aged under 18 to isolate after such a notification.

The Regulations also insert new regulation 10A into the principal Regulations to provide that where a child, or a person to whom the new exemption at regulation 10(5) applies, is required to isolate immediately before these Regulations come into force after being notified that they have had close contact with a person who has tested positive for coronavirus, the isolation requirement comes to an end at the beginning of the day on 7 August 2021.

Nid oes unrhyw newid i'r gofynion i bersonau ynysu ar ôl cael eu hysbysu eu bod wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn—

- darparu y bydd y prif Reoliadau yn dod i ben ar ddiwedd y diwrnod ar 26 Tachwedd 2021 (yn hytrach na 27 Awst 2021);
- dileu'r gofyniad penodol yn rheoliad 16 o'r prif Reoliadau i'r person sy'n gyfrifol am fangre reoleiddiedig gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau sydd o dan do yn y fangre (ond rhaid i'r person sy'n gyfrifol barhau i gydymffurfio â gweddill rheoliad 16 drwy gymryd pob mesur rhesymol, yn seiliedig ar asesiad risg, i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre, a all gynnwys cadw pellter corfforol);
- dileu'r gofynion penodol yn rheoliadau 17 a 17A o'r prif Reoliadau i bersonau sy'n gyfrifol am fangre oedd trwyddedig a mangre oedd manwerthu gymryd mesurau penodol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws (ond unwaith eto, rhaid i'r personau hynny barhau i gydymffurfio â rheoliad 16 o'r prif Reoliadau, a gall y mesurau y gall fod yn rhesymol eu cymryd o dan y rheoliad hwnnw gynnwys mesurau yr oedd yn ofynnol yn benodol iddynt gael eu cymryd o'r blaen o dan reoliad 17 (er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i gwsmeriaid eistedd pan weinir bwyd neu ddioid iddynt mewn mangre drwyddedig) neu reoliad 17A (er enghraifft, cyfyngu ar nifer y cwsmeriaid sydd mewn mangre fanwerthu ar unrhyw un adeg));
- dileu'r gofyniad i wisgo gorchudd wyneb mewn ardaloedd cyhoeddus o dan do mewn mangre oedd lle y gwerthir bwyd neu ddioid i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre (ond pan fo mathau gwahanol o fusnesau yn gweithredu o fangre oedd o'r fath hefyd, rhaid gwisgo gorchuddion wyneb o hyd yn y rhannau hynny o'r mangre oedd lle na werthir bwyd neu ddioid i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau eraill, gan gynnwys diwygiadau sy'n ganlyniadol ar y diwygiadau a nodir uchod.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1011 (Cy. 235)) i newid eu dyddiad dod i ben i 26 Tachwedd 2021.

There is no change to the requirements for persons to isolate after being notified that they have tested positive for coronavirus.

The Regulations also amend the principal Regulations to—

- provide that the principal Regulations expire at the end of the day on 26 November 2021 (rather than 27 August 2021);
- remove the specific requirement in regulation 16 of the principal Regulations for the person responsible for regulated premises to take all reasonable measures to ensure that a distance of 2 metres is maintained between any persons indoors on the premises (but the person responsible must continue to comply with the remainder of regulation 16 by taking all reasonable measures, based on a risk assessment, to minimise the risk of exposure to coronavirus at the premises, which may include physical distancing);
- remove the specific requirements in regulations 17 and 17A of the principal Regulations for persons responsible for licensed premises and retail premises to take particular measures to minimise the risk of exposure to coronavirus (but again, those persons must continue to comply with regulation 16 of the principal Regulations, and the measures that may be reasonable to take under that regulation may include measures that were previously specifically required to be taken under regulation 17 (for example, requiring customers to be seated when being served with food or drink in licensed premises) or regulation 17A (for example, limiting the number of customers who are on retail premises at any one time));
- remove the requirement to wear a face covering in indoor public areas of premises where food or drink is sold for consumption on the premises (but where different types of businesses also operate from such premises, face coverings must still be worn in those parts of the premises where food or drink is not sold for consumption on the premises).

The Regulations also make other minor amendments, including amendments that are consequential on the amendments set out above.

The Regulations also amend the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Functions of Local Authorities etc.) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1011 (W. 235)) to change their expiry date to 26 November 2021.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

**2021 Rhif 925 (Cy. 210)**

**2021 No. 925 (W. 210)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**PUBLIC HEALTH, WALES**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15)  
2021**

**The Health Protection (Coronavirus  
Restrictions) (No. 5) (Wales)  
(Amendment) (No. 15) Regulations  
2021**

*Cymeradwywyd gan Senedd Cymru*

*Approved by Senedd Cymru*

*Gwnaed am 12.16 p.m. ar 6 Awst 2021*

*Made at 12.16 p.m. on 6 August 2021*

*Gosodwyd gerbron Senedd  
Cymru am 4.00 p.m. ar 6 Awst 2021*

*Laid before Senedd  
Cymru at 4.00 p.m. on 6 August 2021*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*

*Coming into force in accordance with  
regulation 1(2) and (3)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

---

(1) 1984 c. 22. Sections 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio paragraffau (3), (12) i (14), (16) i (18) a (22) i (26) o reoliad 2, i rym ar ddechrau'r diwrnod ar 7 Awst 2021.

(3) Daw paragraffau (3), (12) i (14), (16) i (18) a (22) i (26) o reoliad 2 i rym am 6.00 a.m. ar 7 Awst 2021.

### Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3, yn lle "27 Awst" rhodder "26 Tachwedd".

(3) Ar ôl rheoliad 4(6) mewnosoder—

"(6ZA) Ond caiff Atodlen 5 ddarparu nad yw'r un o Atodlenni 1 i 4 yn gymwys i ardal drwy bennu nad oes unrhyw lefel rhybudd yn gymwys i'r ardal."

(4) Yn rheoliad 5(2), yn lle "rheoliadau 6 ac 8" rhodder "rheoliad 6".

(5) Hepgorer rheoliad 9.

(6) Yn rheoliad 10—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "8(2) neu 9(2)" rhodder "neu 8(2)";

The Welsh Ministers consider that restrictions and requirements imposed by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

### Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) (Amendment) (No. 15) Regulations 2021.

(2) These Regulations, apart from paragraphs (3), (12) to (14), (16) to (18) and (22) to (26) of regulation 2, come into force at the beginning of the day on 7 August 2021.

(3) Paragraphs (3), (12) to (14), (16) to (18) and (22) to (26) of regulation 2 come into force at 6.00 a.m. on 7 August 2021.

### Amendment to the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020

2.—(1) The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

(2) In regulation 3, for "27 August" insert "26 November".

(3) After regulation 4(6) insert—

"(6ZA) But Schedule 5 may provide that none of Schedules 1 to 4 apply to an area by specifying that no alert level applies to the area."

(4) In regulation 5(2), for "regulations 6 and 8" substitute "regulation 6".

(5) Omit regulation 9.

(6) In regulation 10—

(a) in paragraph (1), for "8(2) or 9(2)" substitute "or 8(2)";

(1) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28), O.S. 2021/172 (Cy. 40), O.S. 2021/210 (Cy. 52), O.S. 2021/307 (Cy. 79), O.S. 2021/413 (Cy. 133), O.S. 2021/502 (Cy. 150), O.S. 2021/542 (Cy. 154), O.S. 2021/583 (Cy. 160), O.S. 2021/668 (Cy. 169), O.S. 2021/686 (Cy. 172), O.S. 2021/722 (Cy. 183) ac O.S. 2021/862 (Cy. 201).

(1) S.I. 2020/1609 (W. 335) as amended by S.I. 2020/1610 (W. 336), S.I. 2020/1623 (W. 340), S.I. 2020/1645 (W. 345), S.I. 2021/20 (W. 7), S.I. 2021/46 (W. 10), S.I. 2021/57 (W. 13), S.I. 2021/66 (W. 15), S.I. 2021/95 (W. 26), S.I. 2021/103 (W. 28), S.I. 2021/172 (W. 40), S.I. 2021/210 (W. 52), S.I. 2021/307 (W. 79), S.I. 2021/413 (W. 133), S.I. 2021/502 (W. 150), S.I. 2021/542 (W. 154), S.I. 2021/583 (W. 160), S.I. 2021/668 (W. 169), S.I. 2021/686 (W. 172), S.I. 2021/722 (W. 183) and S.I. 2021/862 (W. 201).

(b) ym mharagraff (3), yn lle “, 8(2) a 9(2)” rhodder “ac 8(2)”;

(c) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(5) Nid yw rheoliad 8(2) yn gymwys i berson—

(a) sydd wedi cwblhau cwrs o ddsau o frechlyn awdurdodedig, ac—

(i) bod y cwrs hwnnw o ddsau wedi ei weinyddu i'r person yn y Deyrnas Unedig,

(ii) bod y diwrnod y cafodd y person y cysylltiad agos a arweiniodd at yr hysbysiad a ddisgrifir yn rheoliad 8(1) yn fwy na 14 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y cwblhaodd y person y cwrs hwnnw o ddsau, a

(b) os gofynnir iddo wneud hynny gan y swyddog olrhain cysylltiadau a roddodd yr hysbysiad a ddisgrifir yn rheoliad 8(1), sy'n darparu tystiolaeth ei fod wedi cwblhau'r cwrs o ddsau o frechlyn awdurdodedig yn unol ag is-baragraff (a).

(6) Nid yw rheoliad 8(2) yn gymwys i berson—

(a) sydd wedi cymryd rhan mewn, neu yn cymryd rhan mewn, treial clinigol o frechlyn ar gyfer brechu yn erbyn y coronafeirws a gynhaliwyd neu a gynhelir yn y Deyrnas Unedig yn unol â gofynion Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004(1), a

(b) os gofynnir iddo wneud hynny gan y swyddog olrhain cysylltiadau a roddodd yr hysbysiad a ddisgrifir yn rheoliad 8(1), sy'n darparu tystiolaeth ei fod wedi cymryd rhan mewn, neu yn cymryd rhan mewn, treial clinigol yn unol ag is-baragraff (a).

(7) At ddibenion paragraff (5), mae person wedi cwblhau cwrs o ddsau os yw'r person hwnnw wedi cael y cwrs cyflawn o ddsau a bennir—

(b) in paragraph (3), for “, 8(2) and 9(2)” substitute “and 8(2)”;

(c) after paragraph (4) insert—

“(5) Regulation 8(2) does not apply to a person who—

(a) has completed a course of doses of an authorised vaccine, and—

(i) that course of doses was administered to the person in the United Kingdom,

(ii) the day on which the person had the close contact which resulted in the notification described in regulation 8(1) is more than 14 days after the day on which the person completed that course of doses, and

(b) if requested to do so by the contact tracer who gave the notification described in regulation 8(1), provides evidence that they have completed the course of doses of an authorised vaccine in accordance with sub-paragraph (a).

(6) Regulation 8(2) does not apply to a person who—

(a) has participated in, or is participating in, a clinical trial of a vaccine for vaccination against coronavirus carried out in the United Kingdom in accordance with the requirements of the Medicines for Human Use (Clinical Trials) Regulations 2004(1), and

(b) if requested to do so by the contact tracer who gave the notification described in regulation 8(1), provides evidence that they have participated in, or are participating in, a clinical trial in accordance with sub-paragraph (a).

(7) For the purposes of paragraph (5), a person has completed a course of doses if that person has received the complete course of doses specified—

---

(1) O.S. 2004/1031 fel y'i diwygiwyd gan adran 116 o Ddeddf Gofal 2014 (p. 23) a chan O.S. 2004/3224, O.S. 2005/2754, O.S. 2005/2759, O.S. 2006/562, O.S. 2006/1928, O.S. 2006/2984, O.S. 2007/289, O.S. 2007/3101, O.S. 2008/941, O.S. 2010/231, O.S. 2010/551, O.S. 2010/1882, O.S. 2011/2581, O.S. 2012/134, O.S. 2012/504, O.S. 2012/1641, O.S. 2012/1916, O.S. 2013/532, O.S. 2016/190, O.S. 2016/696, O.S. 2019/593, O.S. 2019/744, O.S. 2019/1094 ac O.S. 2020/1488.

---

(1) S.I. 2004/1031 as amended by section 116 of the Care Act 2014 (c. 23) and by S.I. 2004/3224, S.I. 2005/2754, S.I. 2005/2759, S.I. 2006/562, S.I. 2006/1928, S.I. 2006/2984, S.I. 2007/289, S.I. 2007/3101, S.I. 2008/941, S.I. 2010/231, S.I. 2010/551, S.I. 2010/1882, S.I. 2011/2581, S.I. 2012/134, S.I. 2012/504, S.I. 2012/1641, S.I. 2012/1916, S.I. 2013/532, S.I. 2016/190, S.I. 2016/696, S.I. 2019/593, S.I. 2019/744, S.I. 2019/1094 and S.I. 2020/1488.

- (a) yn y crynodeb o nodweddion y cynnyrch a gymeradwywyd fel rhan o'r awdurdodiad marchnata ar gyfer y brechlyn awdurdodedig, neu
- (b) yn y cyfarwyddiadau defnyddio a gymeradwywyd fel rhan o'r awdurdodiad gan yr awdurdod trwyddedu ar sail dros dro o dan reoliad 174 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012(1) ar gyfer y brechlyn awdurdodedig.

(8) Yn y rheoliad hwn—

- (a) ystyr “brechlyn awdurdodedig” yw cynnyrch meddyginiaethol—
  - (i) a awdurdodwyd i'w gyflenwi yn y Deyrnas Unedig yn unol ag awdurdodiad marchnata, neu
  - (ii) a awdurdodwyd gan yr awdurdod trwyddedu ar sail dros dro o dan reoliad 174 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012,
 ar gyfer brechu yn erbyn y coronafeirws;
- (b) mae i “treial clinigol” yr ystyr a roddir i “clinical trial” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004;
- (c) mae i “yr awdurdod trwyddedu” yr ystyr a roddir i “licensing authority” yn rheoliad 6(2) o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012;
- (d) mae i “awdurdodiad marchnata” yr ystyr a roddir i “marketing authorisation” yn rheoliad 8(1) o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012;
- (e) mae i “cynnyrch meddyginiaethol” yr ystyr a roddir i “medicinal product” yn rheoliad 2 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012.”

(7) Ar ôl rheoliad 10 mewnosoder—

**“Darpariaeth drosiannol: gofynion ynysu**

**10A.** Pan—

- (a) bo person—
  - (i) yn bodloni'r amodau yn rheoliad 10(5) neu (6), neu'n blentyn, a

- (a) in the summary of product characteristics approved as part of the marketing authorisation for the authorised vaccine, or
- (b) in the instructions for usage approved as part of the authorisation by the licensing authority on a temporary basis under regulation 174 of the Human Medicines Regulations 2012(1) for the authorised vaccine.

(8) In this regulation—

- (a) “authorised vaccine” means a medicinal product—
  - (i) authorised for supply in the United Kingdom in accordance with a marketing authorisation, or
  - (ii) authorised by the licensing authority on a temporary basis under regulation 174 of the Human Medicines Regulations 2012,
 for vaccination against coronavirus;
- (b) “clinical trial” has the meaning given in regulation 2(1) of the Medicines for Human Use (Clinical Trials) Regulations 2004;
- (c) “the licensing authority” has the meaning given in regulation 6(2) of the Human Medicines Regulations 2012;
- (d) “marketing authorisation” has the meaning given in regulation 8(1) of the Human Medicines Regulations 2012;
- (e) “medicinal product” has the meaning given in regulation 2 of the Human Medicines Regulations 2012.”

(7) After regulation 10 insert—

**“Transitional provision: isolation requirements**

**10A.** Where—

- (a) a person—
  - (i) satisfies the conditions in regulation 10(5) or (6), or is a child, and

(1) O.S. 2012/1916.

(1) S.I. 2012/1916.



- (ii) o dan ofyniad i beidio ag ymadael â'r man lle y mae'r person yn byw, neu fod y tu allan iddo, yn rhinwedd rheoliad 8(2) neu 9(2) yn union cyn 7 Awst 2021, a
- (b) bo diwrnod olaf ynysiad y person (fel y'i pennir yn unol â rheoliad 8(4) neu (5) neu reoliad 9(4) neu (5)) ar 7 Awst 2021 neu'n ddiweddarach,
- daw'r gofyniad i beidio ag ymadael â'r man lle y mae'r person yn byw, neu fod y tu allan iddo, i ben ar ddechrau 7 Awst 2021."
- (8) Yn rheoliad 11—
- (a) ym mharagraff (1)(a), hepgorer "neu 9(2)";
- (b) ym mharagraff (5)(b), hepgorer "neu 9 yn ôl y digwydd";
- (c) hepgorer paragraff (6).
- (9) Yn rheoliad 12, hepgorer "neu 9(2)".
- (10) Yn rheoliad 13(1)(a), yn lle ", 8(1) neu 9(1)" rhodder "neu 8(1)".
- (11) Yn rheoliad 14—
- (a) ym mharagraff (2)(a), yn y geiriau o flaen paragraff (i), yn lle ", 8(2) neu 9(2)" rhodder "neu 8(2)";
- (b) ym mharagraff (2)(a)(ii), yn lle ", 8(1) neu 9(1)" rhodder "neu 8(1)";
- (c) ym mharagraff (2)(a)(iii), yn lle ", 8 neu 9" rhodder "neu 8".
- (12) Yn rheoliad 16—
- (a) ym mharagraff (1)—
- (i) hepgorer—
- "Cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—
- (a) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau o dan do yn y fangre, ac eithrio rhwng aelodau o grŵp a ganiateir;
- (b) pan fo'n ofynnol i bersonau aros o dan do i fynd i'r fangre, y cynhelir pellter o 2 fetr rhyngddynt, ac eithrio rhwng aelodau o grŵp a ganiateir.
- Cam 4*";
- (ii) o dan y pennawd "*Cam 2*", hepgorer "*a Cham 4*".
- (b) hepgorer paragraff (2);
- (ii) is required to not leave or be outside of the place where the person is living by virtue of regulation 8(2) or 9(2) immediately before 7 August 2021, and
- (b) the last day of the person's isolation (as determined in accordance with regulation 8(4) or (5) or regulation 9(4) or (5)) is 7 August 2021 or later,
- the requirement to not leave or be outside of the place where the person is living comes to an end at the beginning of 7 August 2021."
- (8) In regulation 11—
- (a) in paragraph (1)(a), omit "or 9(2)";
- (b) in paragraph (5)(b), omit "or 9 as the case may be";
- (c) omit paragraph (6).
- (9) In regulation 12, omit "or 9(2)".
- (10) In regulation 13(1)(a), for ", 8(1) or 9(1)" substitute "or 8(1)".
- (11) In regulation 14—
- (a) in paragraph (2)(a), in the words before paragraph (i), for ", 8(2) or 9(2)" substitute "or 8(2)";
- (b) in paragraph (2)(a)(ii), for ", 8(1) or 9(1)" substitute "or 8(1)";
- (c) in paragraph (2)(a)(iii), for ", 8 or 9" substitute "or 8".
- (12) In regulation 16—
- (a) in paragraph (1)—
- (i) omit—
- "Take all reasonable measures to ensure—
- (a) that a distance of 2 metres is maintained between any persons indoors on the premises, except between members of a permitted group;
- (b) where persons are required to wait indoors to enter the premises, that a distance of 2 metres is maintained between them, except between members of a permitted group.
- Step 4*";
- (ii) under the "*Step 2*" heading, omit "and *Step 4*".
- (b) omit paragraph (2);

- (c) ym mharagraff (5)(a), yn lle “regulations 16, 17 and 17A” rhodder “regulation 16”;
- (d) hepgorer paragraff (6).
- (13) Hefgorer rheoliadau 17 a 17A.
- (14) Yn rheoliad 18(1), hepgorer “, 17(1) neu 17A”.
- (15) Yn rheoliad 19—
- (a) ym mharagraff (1), yn lle “mewn cerbyd” rhodder “mewn rhan o dan do o gerbyd”;
- (b) hepgorer paragraff (3)(c)(i), gan gynnwys y “neu” ar y diwedd.
- (16) Yn rheoliad 20—
- (a) ym mharagraff (1), ar ôl “gael mynediad iddynt” mewnosoder “, ac eithrio mangreoedd lle y gwerthir bwyd neu ddiod, neu lle y darperir bwyd neu ddiod fel arall, i’w fwyta neu i’w hyfed yn y fangre”;
- (b) hepgorer paragraff (3)(h);
- (c) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—
- “(4) At ddibenion paragraff (1), pan—
- (a) bo busnes (“busnes A”) yn gwerthu, neu fel arall yn darparu, bwyd neu ddiod i’w fwyta neu i’w hyfed yn y fangre busnes,
- (b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy (“busnes B”), ac
- (c) bo busnes B hefyd yn cynnal ei fusnes yn y fangre, ond na fo’n gwerthu, neu fel arall yn darparu, bwyd na diod i’w fwyta neu i’w hyfed yn y fangre honno,
- mae P i’w drin fel pe bai mewn mangre lle y gwerthir bwyd neu ddiod, neu lle y’i darperir fel arall, i’w fwyta neu i’w hyfed yn y fangre dim ond pan fo P yn y rhan o’r fangre lle y mae busnes A yn cynnal ei fusnes.”
- (17) Yn rheoliad 25(3)(a)(i), hepgorer “, 17(1) neu 17A”.
- (18) Yn rheoliad 26, hepgorer “, 17(1) a 17A”.
- (19) Yn rheoliad 30, yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle “, 8(2) neu 9(2)” rhodder “ neu 8(2)”.
- (20) Yn rheoliad 40—
- (a) ym mharagraff (1)—
- (i) yn is-baragraff (a), hepgorer “, 9(2)”;
- (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “, 8(3) neu 9(3)” rhodder “neu 8(3)”;
- (b) ym mharagraff (2)(a), yn lle “, 8(3) neu 9(3)” rhodder “neu 8(3)”.
- (c) in paragraph (5)(a), for “regulations 16, 17 and 17A” substitute “regulation 16”;
- (d) omit paragraph (6).
- (13) Omit regulations 17 and 17A.
- (14) In regulation 18(1), omit “, 17(1) or 17A”.
- (15) In regulation 19—
- (a) in paragraph (1), for “on” substitute “in an indoor part of”;
- (b) omit paragraph (3)(c)(i), including the “or” at the end.
- (16) In regulation 20—
- (a) in paragraph (1), after “access” insert “, other than premises where food or drink is sold, or otherwise provided, for consumption on the premises”;
- (b) omit paragraph (3)(h);
- (c) after paragraph (3) insert—
- “(4) For the purposes of paragraph (1), where—
- (a) a business (“business A”) sells, or otherwise provides, food or drink for consumption on the business premises,
- (b) business A forms part of a larger business (“business B”), and
- (c) business B also carries on its business on the premises, but does not sell, or otherwise provide, food or drink for consumption on those premises,
- P is to be treated as being in premises where food or drink is sold, or otherwise provided, for consumption on the premises only where P is in the part of the premises at which business A carries on its business.”
- (17) In regulation 25(3)(a)(i), omit “, 17(1) or 17A”.
- (18) In regulation 26, omit “, 17(1) and 17A”.
- (19) In regulation 30, in the words before sub-paragraph (a), for “, 8(2) or 9(2)” substitute “or 8(2)”.
- (20) In regulation 40—
- (a) in paragraph (1)—
- (i) in sub-paragraph (a), omit “, 9(2)”;
- (ii) in sub-paragraph (b), for “, 8(3) or 9(3)” substitute “or 8(3)”;
- (b) in paragraph (2)(a), for “, 8(3) or 9(3)” substitute “or 8(3)”.

(21) Yn rheoliad 57(5), ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

“(aa) mae cerbyd, neu ran o gerbyd, o dan do os yw’n gaeedig o fewn yr ystyr a roddir gan y rheoliad hwnnw;”.

(22) Yn Atodlen 1, paragraff 5(4A), yn lle “rheoliadau 16, 17 a 17A” rhodder “rheoliad 16”.

(23) Yn Atodlen 2, paragraff 5(4A), yn lle “rheoliadau 16, 17 a 17A” rhodder “rheoliad 16”.

(24) Yn Atodlen 3, paragraff 6(4A), yn lle “rheoliadau 16, 17 a 17A” rhodder “rheoliad 16”.

(25) Yn Atodlen 5, yng Ngholofn 3, yn lle “1” rhodder “Dim lefel rhybudd”.

(26) Yn Atodlen 8—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn is-baragraff (1)(a), hepgorer “, 17 neu 17A”;

(ii) yn is-baragraff (2)(b), hepgorer “, 17 neu 17A”;

(b) ym mharagraff 2—

(i) yn is-baragraff (3)(a), hepgorer “, 17 neu 17A”;

(ii) yn is-baragraff (4)(b)(ii), hepgorer “, 17 neu 17A”;

(iii) yn is-baragraff (4)(c), hepgorer “, 17 neu 17A”;

(c) ym mharagraff 3(3)(c), hepgorer “a, phan fo’n berthnasol, reoliad 17 neu 17A”;

(d) ym mharagraff 4(1)(b), hepgorer “a, phan fo’n berthnasol, reoliad 17 neu 17A”.

(21) In regulation 57(5), after sub-paragraph (a) insert—

“(aa) a vehicle, or a part of a vehicle, is indoors if it is enclosed within the meaning given by that regulation;”.

(22) In Schedule 1, paragraph 5(4A), for “regulations 16, 17 and 17A” substitute “regulation 16”.

(23) In Schedule 2, paragraph 5(4A), for “regulations 16, 17 and 17A” substitute “regulation 16”.

(24) In Schedule 3, paragraph 6(4A), for “regulations 16, 17 and 17A” substitute “regulation 16”.

(25) In Schedule 5, in Column 3, for “1” substitute “No alert level”.

(26) In Schedule 8—

(a) in paragraph 1—

(i) in sub-paragraph (1)(a), omit “, 17 or 17A”;

(ii) in sub-paragraph (2)(b), omit “, 17 or 17A”;

(b) in paragraph 2—

(i) in sub-paragraph (3)(a), omit “, 17 or 17A”;

(ii) in sub-paragraph (4)(b)(ii), omit “, 17 or 17A”;

(iii) in sub-paragraph (4)(c), omit “, 17 or 17A”;

(c) in paragraph 3(3)(c), omit “and, where relevant, regulation 17 or 17A”;

(d) in paragraph 4(1)(b), omit “and, where relevant, regulation 17 or 17A”.

### **Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020**

3. Yn rheoliad 3(1) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020(1), yn lle “27 Awst” rhodder “26 Tachwedd”.

### **Amendment to the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Functions of Local Authorities etc.) (Wales) Regulations 2020**

3. In regulation 3(1) of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Functions of Local Authorities etc.) (Wales) Regulations 2020(1), for “27 August” substitute “26 November”.

(1) O.S. 2020/1011 (Cy. 225) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1100 (Cy. 250), O.S. 2020/1149 (Cy. 261), O.S. 2020/1219 (Cv. 276), O.S. 2020/1409 (Cy. 311), O.S. 2020/1609 (Cy. 335), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/307 (Cy. 79), O.S. 2021/542 (Cy. 154) ac O.S. 2021/583 (Cy. 160).

(1) S.I. 2020/1011 (W. 225) as amended by S.I. 2020/1100 (W. 250), S.I. 2020/1149 (W. 261), S.I. 2020/1219 (W. 276), S.I. 2020/1409 (W. 311), S.I. 2020/1609 (W. 335), S.I. 2021/57 (W. 13), S.I. 2021/307 (W. 79), S.I. 2021/542 (W. 154) and S.I. 2021/583 (W. 160).

*Mark Drakeford*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru  
Am 12.16 p.m. ar 6 Awst 2021

First Minister, one of the Welsh Ministers  
At 12.16 p.m. on 6 August 2021

---

©Hawlfraint y Goron 2021

---

© Crown copyright 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/925>

ISBN 978-0-348-11965-7



9 780348 119657